Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
CYFARFOD BLYNYDDOL
MAI 2006

DYDDIAD	Nos Fercher, 17eg Mai, 2006
AMSER	6.30yh
LLEOLIAD	Neuadd Rhostryfan
AELODAU YN BRESENNOL	Nerys Evans (Cad), Huw Williams, Gwilym V.Thomas, Meurig Williams, Hugh Jones, Neal Williams, Jason Hunt, Elin Evans, Elwyn Jones, Gwilym L.Williams
HEFYD YN BRESENNOL	Bethan Williams (clerc)

1. Ymweliad yr Heddlu

Cyfarfod cyhoeddus gyda'r swyddogion Pete Williams a Gwyn Parry. Trafodwyd problemau cyffredinol yn ymwneud â traffig a gor-yrru yn yr ardal. Cafwyd adroddiad hefyd fod rhywun wedi cuddio cyllell fawr yng ngardd Maen Brith ac er i'r perchennog ffonio'r heddlu i wneud adroddiad, ni chafwyd ymateb ganddynt ac ni fuodd neb yn ymweld. Y gyllell bellach wedi'i dinistrio. Y ddau swyddog yn mynd i ymchwilio ymhellach i'r digwyddiad.
Trefnir y cyfarfod nesaf ar yr 20fed o Fedi.

2. Ethol swyddogion

Cynigwyd enw Huw Williams i fod yn gadeirydd am y flwyddyn. cHJ eEIJ. Cytunodd. Cynigiwyd enw Elin Evans a Tom Ellis fel is-gadeirydd. Gwrthododd EE y swydd, a gohiriwyd y penderfyniad hyd nes bydd TE yn bresennol. cHJ eEE

3. Ymddiheuriadau

Emrys Jones, Cyng.Glyn Owen

4. Croeso

Estynwyd groeso cynnes i bawb.

5. Datgan Buddiant

Dim

6. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf (26.04.06) fel rhai cywir.

7. Materion yn Codi

i Plac Tabernacl. Ymddiheurodd NE am y camddealltwriaeth ynglŷn â'r plac, ac mae'n cydnabod fod y plac yn perthyn i Tabernacl. Penderfynwyd gofyn wrth berchennog y tŷ sydd bellach ar y safle os oes modd i ni gael gosod y plac ar y talcen. Plac Graianfryn – angen atgoffa'r Cyngor Sir.

ii Llwybrau Caeau Cochion, Rhostryfan – adroddodd y clerc fod gwaith wedi'i wneud gan y Cyngor Sir, ond nad yw'r gwaith yn foddhaol iawn, ac fe ragwelir y bydd yr un problemau yn codi'u pen unwaith eto yn fuan. Angen trefnu cyfarfod safle gyda swyddogion llwybrau'r Cyngor. Penderfynwyd hefyd gael 3 pris gan gontractwyr i adnewyddu'r llwybrau.

iii Pryniant tir ychwanegol ger Cefnfaes. Clerc i gysylltu â Charles Medforth i gael adroddiad llawn ar y safle.

iv Derbyniwyd llythyr gan Roberts & Owen, Ymgymerwyr Angladdau, mewn ymateb i'r llythyr a anfonwyd ynglŷn â'r rheol sy'n datgan fod rhaid gwneud gwaith adeiladol ymhob beddrod yng Nghefnfaes. Nododd Mr.Iolo Owen fod cwmni Roberts & Owen bob amser yn cadw at y rheolau. Mae Mr.Owen wedi derbyn llythyrau o'r math gan gynghorau cymuned eraill yn y gorffennol, yn dilyn cwynion di-sail a gyflwynwyd gan ymgymerwr arall yn yr ardal, ac o'r herwydd mae Roberts & Owen wedi gorfod cymryd camau i amddiffyn eu hunain, megis tynnu lluniau'r beddrodau, i brofi fod gwaith wedi'i wneud, ac mae'r lluniau yma ar gael i'r cyngor pe dymunent.
Nododd NE nad oes angen cael copi o'r lluniau, a bod y cyngor yn fodlon derbyn gair Mr.Owen.
Awgrymir y dylid anfon eto at yr holl ymgymerwyr i ofyn am ymateb i'n llythyr.

v Cwynion yn erbyn y Cyngor Sir – gwaith ddim yn cael ei wneud, dim ymateb ac yn y blaen. Roedd y clerc wedi paratoi adroddiad sy'n amlinellu'r holl ddiffygion. Angen anfon copi o'r adroddiad i Brif Swyddogion y Cyngor gyda chopi i'r Cyng.Glyn Owen. Hefyd, angen trefnu cyfarfod gyda'r swyddogion i drafod yr holl faterion.

vi Safle Wê ar gyfer Cyngor Llanwnda – clerc wedi cael pris gan gwmni Delwedd o Gaernarfon. Pawb yn cytuno fod cynnwys y pecyn yn ddeniadol iawn, ond bod angen cael prisiau ychwanegol gan gwmniau eraill cyn mynd ymlaen i wneud penderfyniad. cHJ eNW

vii Mainc ar gae'r ysgol yn Rhostryfan. Angen trefnu fod y fainc yn cael ei symud o'r cae chwarae gan fod sbwriel yn casglu o'i hamgylch. Gofyn i gael ei symud i'r hen orsaf, ymhell oddi wrth ffens yr ysgol.

viii Partneriaeth Diogelwch – ymateb i'n llythyr ynglŷn ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Angen tystiolaeth bendant o fewn cyfnod o chwe mis i'r digwyddiad cyn gellid gorfodi ASBO.

ix POCA – Post Office Card Accounts – cafwyd adroddiad gan HJ yn cyflwyno'r ddadl yn erbyn y cynllun. Llythyr gan Edwina Hart yn amlinellu'r cynllun.

x Grŵp Cyswllt Lleol Cilgwyn – adroddiad o'r pwyllgor cyntaf.

xi Gosod lamp ger Bron Eryri, Rhosgadfan – nododd y clerc ei bod wedi cael galwad ffôn gan swyddog lampau'r cyngor sir yn nodi fod person sy'n byw ger y safle'r wedi dangos gwrthwynebiad chwyrn i'r bwriad o osod lamp ger Bron Eryri. Nododd NW fod y lleoliad yn dywyll iawn a bod tri person wedi gofyn am gael gosod lamp yno. Penderfynwyd fynd ymlaen â'r cynllun i osod lamp, ac i gysylltu efo'r gwrthwynebydd i roi gwybod iddo gan obeithio y cawn ei gydweithrediad.

xii Arwyddion arafu – nodyn gan Mel Fôn, 'Arrive Alive Campaign' yn datgan nad oes cyllid ar gael i brynu arwyddion eraill ar gyfer Rhostryfan a Rhosgadfan. Cyngor Cymuned yn awyddus i brynu'r arwyddion ond angen cael gwybod beth fyddai'r pris i brynu ac i osod arwydd, ac i ofyn os byddai modd i'r Cyngor Sir gymryd gofal drosto unwaith y bydd yn ei le.

xiii Clerc wedi derbyn galwad ffôn gan olygydd y Caernarfon & Denbigh Herald yn datgan ei fod yn siomedig o dderbyn ein cwyn fod dim digon o newyddion lleol yn y papur. Mae'n dadlau fod oddeutu 50% o'r newyddion yn lleol ar gyfartaledd, gyda thri gohebydd yn Arfon yn ogystal a ffotograffydd llawn amser. Annog yr aelodau i gysylltu efo fo os oes unrhyw newyddion lleol sydd angen sylw.

xiv Pwyntiau ail-gylchu - llythyr gan Steffan Jones yn datgan fod gan bob tŷ yn yr ardal bellach wedi derbyn bocs glas, a'i bod felly yn annhebygol y bydd y cyngor sir yn paratoi safloedd ail-gylchu cymunedol.

8. i Derbyn Adroddiadau

Dim

9. Is-bwyllgorau

Dim

10. Materion Ariannol

Balans ar ddiwedd 17.05.06	Cyfrif llog uchel:	22,665.51
	Cyfrif siec:	642.56
	CYFANSWM:	23,308.07
(i) Cymeradwywyd y taliadau canlynol:	Cyflog/Costau clerc	371.36
	Wyn Williams	200.00
	SLCC – ffî ail-ymaelodi	11.00
	Cyllid y Wlad	178.42
	YN WEDDILL	**22,547.29**

11. Materion Cynllunio

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
C06A/0305/24/LL – Cae Gwyn, Rhos Isaf, dymchwel tŷ presennol a chreu annedd a mynedfa newydd ynghyd â menage.
CO6A/0283/24/LL– Llain Ffynnon, Llanfaglan – estyniad a garej.

Cynllun Datblygu Unedol – datganiad o'r achos ynglŷn â datb;ugoad ger Ael y Bryn, Rhosgadfan.

12. Gohebiaeth

i Llythyr gan Mrs.Rhian Jones, Bryn Eithin ynglŷn â biniau sbwriel yn cael eu gadael ar y ffordd, diffyg goleuadau ar y stryd a baw ceffyl a chŵn. Angen cyfeirio'r llythyr at Gyngor Gwynedd gyda ymateb i Mr.Rhian Jones.

ii Un Llais Cymru – llythyr yn cydnabod ein haelodaeth am flwyddyn.
Llythyr ychwanegol gan Jane C.Evans, Swyddog Rhanbarthol y Gogledd yn cyflwyno'i hun ac i nodi fod pwyllgor ardal wedi'i drefnu ym Mhwllheli ar y 25ain o Fai.

iii Gwahoddid i fynychu sesiwn cydraddoldeb anabledd yn y Ganolfan Porthmadog, 5ed o Fehefin neu Neuadd y Dref, Llangefni ar y 13eg o Fehefin.

iv Cynulliad – hysbyseb o bwyllgor rhanbarth y canolbarth a'r gogledd.

v Iwan Evans, Cynllunio a Thrafnidiaeth, Cyngor Gwynedd – llythyr yn ein hysbysu fod ffioedd gwaith ar hawliau cyhoeddus bellach wedi codi fel a ganlyn: £220 fel swm sylfaenol a £26 y filltir.

vi Llythyr gan Mr.Geraint Summers yn datgan siom fod y cyngor cymuned yn amau mai nic plac Tabernacl oedd yn ein perchnogaeth. Gweler materion uchod.

vii Cylchgrawn Clerks & Councils Direct

viii Cynulliad – manylion Her Iechyd Cymru

ix Cylchgrawn The Clerk

x Gwybodaeth am offer chwarae

xi Adolygiad ysbytai cymunedol Ynys Môn

13. Unrhyw Fater Arall – Materion ar gyfer mis nesa

i ElJ – nodwyd fod twll wedi ymddangos yn y ffordd ger Dymuniad, Rhostryfan

ii Arwyddion Lein Bryngwyn – angen ychwanegu un arwydd arall ger Rhandir Mwyn.

iii Angen trefnu fod Dewi Tomos yn derbyn cydnabyddiaeth am helpu gyda'r arwyddion – tocyn llyfr £25.

iv Angen checio amserlen torri gwrychoedd Cyngor Gwynedd er mwyn ceisio sicrhau na fydd Cyngor Llanwnda yn trefnu i dorri'r gwrychoedd yr un pryd.

v GVT – gofyn be sy'n digwydd efo cae chwarae Rhosgadfan, adroddiadau fod y gwair yn rhy hir i blant chwarae ynddo. Adroddodd HW mai ei gyfrifoldeb o ydy torri'r gwair ac y bydd yn digwydd yn fuan.

vi HJ – sbwriel yn casglu ger mynedfa Lôn Eifion – angen gofyn wrth y Cyngor Sir wagio'r biniau yn fwy rheolaidd.

vii NW – angen atgoffa'r Cyngor Sir eto am y broblem gyda'r wal a'r ciosg yn Rhosgadfan.

14. Cyfarfod Nesaf

21ain Mehefin, 2006 – Neuadd Rhostryfan – i'w gadarnhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15p.m.